



Eich cyf/Your ref P-05-1149
Ein cyf/Our ref DET/00474/21

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

11 Mawrth 2021

Annwyl Janet,

Diolch am eich gohebiaeth ynghylch deiseb P-05-1149.

Er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn llawn bwysigrwydd ymarfer corff ar gyfer lles corfforol a meddyliol ein plant, rydym yn parhau i fod ar lefel rhybudd pedwar lle mae'r cyfyngiadau llymaf ar 'aros gartref' mewn grym. Unwaith y bydd y rhain yn cael eu codi, byddwn yn symud i gyfnod pontio lle bwriadwn symud yn raddol, gam wrth gam, i lefel rhybudd tri. Dyma pryd y bydd plant dan 11 oed yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon ac ymarfer corff. Ni all Llywodraeth Cymru wneud sylwadau ar unrhyw reoliadau a wneir gan lywodraeth y DU.

Mae dull Llywodraeth Cymru o weithredu cyfyngiadau yn parhau i fod yn seiliedig ar y data a'r wyddoniaeth ddiweddaraf sy'n berthnasol i Gymru, ac mae'n ystyried y cyngor diweddaraf gan ein cynghorwyr gwyddonol a meddygol ein hunain. Mae Cymru wedi cyflawni cynnydd mawr dros yr wythnosau diwethaf, ac nid dyma'r amser i ruthro i lacio rheolau yn rhy gyflym.

Bydd yr adolygiad 21 diwrnod nesaf yn cael ei gynnal ar 12 Mawrth. Fel rhan o'r broses hon bydd Gweinidogion yn parhau i ystyried pryderon a safbwyntiau'r cyhoedd, ochr yn ochr â'r cyngor a'r data arbenigol diweddaraf i Gymru a fydd yn llywio penderfyniadau ynghylch pa newidiadau pellach y gellir eu gwneud yn ddiogel. Fel y nodwyd ar 19 Chwefror rydym eisoes yn gweld bod rhai arwyddion cadarnhaol yn deillio o'r cyfyngiadau symud, gyda chyfraddau trosglwyddo'n gostwng a'r broses o gyflwyno'r brechiad yn mynd rhagddi'n dda. Wrth gwrs, rydym am ganiatáu i blant a phobl eraill ddychwelyd i weithgareddau fel chwaraeon tîm cyn gynted â phosibl, ond bydd angen gwneud y newidiadau hyn yn araf. Dim ond pan fydd y wyddoniaeth a'r data'n dweud wrthym ei bod yn ddiogel gwneud hynny y bydd rheolau'n cael eu llacio'n raddol. Mae'n bwysig nad ydym yn rhuthro i wneud unrhyw beth a allai arwain at don arall o heintiau cynyddol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn deall yn iawn yr effeithiau y mae'r pandemig yn ei chael ar iechyd corfforol ac iechyd meddyliol ein plant, ond am gyfnod byr arall mae angen i ni gynnal y neges glir a chref hon. Rhaid i bob un ohonom fynd ati ar y cyd i ymladd y pandemig hwn er mwyn cadw ein hunain, ein hanwyliaid a'r cyhoedd yn ehangach yn ddiogel.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Elis-Thomas'.

Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism